



## Crynodeb o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn y Rhondda Haf 2015

Treial rheoli adnoddau naturiol y Rhondda  
Medi 2015

## 1 Cyflwyniad

Er mwyn ein helpu ni i baratoi a darparu Datganiad Ardal cychwynnol ar gyfer y treial rheoli adnoddau naturiol yn y Rhondda, rydym yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau i glywed eu barn.

Yn nhyrnor y gwanwyn 2015, cynhaliwyd dau weithdy ffurfiol yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y Rhondda ar gyfer partneriaid a grwpiau cymunedol. Bwriad y digwyddiadau hyn oedd helpu i weld beth yw'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd posib ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yr ardal sy'n medru dod â nifer o fanteision i'r bobl, yr economi a'r amgylchedd. Roedden ni'n awyddus hefyd i ddarganfod ffyrdd gwell o weithio rhwng partneriaid er mwyn darparu'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau sy'n ymddangos.

Yn ystod haf 2015, dyma ni'n troi ein sylw at y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn chwarae yn y Rhondda i ddarganfod eu barn. Mae barn y cyhoedd yn holl bwysig wrth i ni geisio adnabod anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Er mwyn gwneud hyn, dyma ni'n mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau yn y gymuned, a'n cynorthwyodd ni i gasglu gwybodaeth yn ymwneud ag egni (yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol), sgiliau/swyddi, yr hyn mae pobl yn ei hoffi fwyaf am yr ardal, sut maen nhw'n defnyddio'r awyr agored a'u dymuniadau ar gyfer eu cymunedau.

Mae'r ddogfen hon yn grynoded o'r digwyddiadau cyhoeddus a fynychwyd gennym, y dulliau a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd, a'r prif gasgliadau.

Crynodeb o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yn y Rhondda, haf 2015



Trigolion yn cwblhau'r ffurflenni A5 am y Rhondda



## 2 Digwyddiadau yn y gymuned: haf 2015

I gyd-fynd â'n gwaith ymgysylltu presennol gyda mudiadau proffesiynol, fe weithion ni gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill er mwyn cynllunio a mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau yn y gymuned a gynhaliwyd yn haf 2015. Dewiswyd cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol a drefnwyd yn yr ardal eisoes er mwyn osgoi ailadrodd, ac i'n helpu ni a'n partneriaid i arbed amser ac arian. Mynychwyd y digwyddiadau isod ym mis Gorffennaf ac Awst 2015 er mwyn casglu syniadau pobl am Rhondda iach a bywiog:

- **Diwrnod Lles Ieuenctid yn Ysgol Gyfun Ferndale, Rhondda (22 Awst)**  
Mynychwyd gan blant a phobl ifanc o'r 5 prif ysgol gyfun yn y Rhondda.
- **'Have a voice in the Valleys' yng Nghanolfan Chwaraeon Rhondda Fach, Rhondda (23 Gorffennaf)** \*gweler isod am fwy o wybodaeth  
Digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned a drefnwyd ar y cyd rhyngom ni (CNC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd hefyd yn treialu dull o ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ardal.

Mynychwyd gan blant, rhieni ac ymwelwyr lleol â'r ganolfan chwaraeon. Daeth tua 180 o bobl i'r digwyddiad gyda 65 ohonynt yn llenwi'r *Snap Survey*.

Y prif themâu a drafodwyd oedd swyddi/hyfforddi/sgiliau, a chasglwyd gwybodaeth gan *snap surveys*, nodiadau post-it a'n taflenni A5.

**HAVE A VOICE IN THE VALLEYS** HAVE YOUR DWEUD SAY EICH DWEUD  
The Rhondda Fach Free Community Event  
THURSDAY 10am - 6:30pm  
**23 JULY**  
Rhondda Fach Sports Centre, Tylorstown  
Do you live or work in:  
**Ferndale • Maerdy • Tylorstown**  
or the surrounding area?  
Then this is an opportunity to tell us **YOUR** views about **YOUR** local area.  
**COME ALONG AND HAVE YOUR SAY**  
Fun activities for everyone, including:  
• Hog Roast • Music and Dance  
• Bouncy Castle • Outdoor activities  
• Arts and Crafts • Play  
**AND MORE...**  
#valleysvoice Follow at: [twitter](#) [facebook](#)

Taflen yn hysbysebu'r digwyddiad gan CNC / RCT, 'Have a voice in the Valleys'.

- **'Stories of Change' yn Llyfrgell Treherbert, Rhondda (28 Gorffennaf – 4 Awst)**

Digwyddiad unigryw, hiraethus a llwyddiannus pythefnos o hyd a gynhaliwyd yn Llyfrgell wag Treherbert.

Arweiniwyd y digwyddiad gan Blaengad, Storyworks a Croeso i'n Coedwig, gyda bron i 700 o aelodau'r cyhoedd yn cymryd rhan dros y bythefnos gyfan. Prif themâu'r digwyddiad oedd egni (yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol), Rhondda Uwch, hamdden ac unrhyw bwnc arall yr hoffai'r ymwelwyr sgwrsio yn ei gylch.

- **Cegaid o Fwyd Cymru/Big Welsh Bite ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd (1-2 Awst)**

Mae'r sioe fwyd ac amaeth Gymreig yn wyl dros ddau ddiwrnod sy'n arddangos cynnyrch lleol. Defnyddiwyd yr Arweinlyfr (gweler adran 4) gan ein cydweithwyr yn nhîm Rheoli Adnoddau Naturiol Taf. Cwblhawyd 44 o daflenni gan ymwelwyr yr wyl.



Llun 1) Yn y digwyddiad *Voice in the Valleys* a drefnwyd ar y cyd gan CNC / RCT; Llun 2) Ymwelydd yn cwblhau taflen A5 yng ngŵyl Cegaid o Fwyd Cymru; Llun 3) Siarad â thrigolion Treherbert

### 3 Deunyddiau Ymgysylltu

Er mwyn cyfarfod a siarad â'r gymuned, fe weithion ni gyda'n hwylusydd i greu arweinyfr trawiadol er mwyn mynd ag ef gyda ni i ddigwyddiadau amrywiol. Dyluniwyd ein harweinyfr cymunedol modwlar dwyieithog isod er mwyn ei ddefnyddio naill ai gyda'r sawl sy'n bresennol neu fel poster/taflen/bocs syniadau annibynnol. Mae'r darluniau o dirlun y Rhondda'n dangos rhai o'r gwahanol ffyrdd y mae pobl yn medru defnyddio eu hamgylchedd lleol.



Baner 'pop-up'

Taflen A5, gyda lle gwag ar y cefn er mwyn i bobl allu ysgrifennu neu ddarlunio syniadau a lle iddyn nhw ddarparu eu manylion

Poster A4, A3 ac A2

Bocs syniadau

Poster A2 – lle i bobl roi nodiadau 'post-its' neu ysgrifennu



## 4 Methodoleg

### Holiaduron y taflenni A5

Ymgysylltwyd â'r cyhoedd trwy gynnal sgysiau anffurfiol yn y digwyddiadau amrywiol a fynychwyd gennym.

Er mwyn gweld beth oedd barn y cyhoedd, gofynnwyd iddynt gwblhau un o'n taflenni A5 (a ddangosir yn yr arweinlyfr yn adran 4).

Mae gan y taflenni flychau i'w ticio ar gyfer 'lleoliad'/'cod post' a chategori oedran er mwyn cael syniad o'r ddemograffeg, ac mae'n cynnwys 3 cwestiwn:

1. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ardal?
2. Sut ydych chi'n defnyddio'r awyr agored yn eich ardal leol?
3. Beth yw eich syniadau am wella eich ardal leol?

Cwblhaodd dros 100 o bobl y taflenni A5.

### Snap survey

Ar gyfer y digwyddiad 'Have a voice in the Valleys' yng Nghanolfan Chwaraeon Rhondda Fach, defnyddiwyd holiaduron snap survey ar bapur ac yn electronig ar gyfrifiaduron llechen, yn ogystal â thechnegau mapio asedau cymunedol er mwyn cofnodi'r ymatebion. Daeth dyn camera i recordio'r digwyddiad, a chynhaliwyd cyfres o gyfweiliadau gyda'r ymwelwyr o flaen y camera. Cwblhaodd 65 o bobl y Snap Survey.

### Mapiau

Aethom ni â mapiau mawr o'r ardal leol i ddau o'r digwyddiadau cyhoeddus er mwyn i bobl allu ysgrifennu, tynnu lluniau a sgriblo unrhyw wybodaeth yr hoffent gyfrannu. Mae'r mapiau'n gweithio'n dda, ac maen nhw wedi darparu ystod fawr o wybodaeth gan gynnwys: mannau ble gwelir troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ardaloedd poblogaidd ar gyfer cerdded, mannau o ddiddordeb o ran natur, a gwybodaeth arall yn ymwneud â llifogydd lleol ac ati.

## 5 Crynodeb o'r canfyddiadau

1. Gofynnwyd y 3 cwestiwn canlynol i bobl y Rhondda:

### 1 Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ardal?

- Mae 46% yn hoff o gefn gwlad y Rhondda (mynyddoedd, coedwigoedd, afonydd)
- Mae 15% yn hoff o frogarwch y Rhondda
- Mae 14% yn hoff o'r golygfeydd
- Mae 12% yn hoff o'r parciau a'r manau gwyrdd mewn ardaloedd trefol
- Mae 5% yn hoff o'r bywyd gwylt, 2% yn hoffi'r tawelwch, ac mae 6% yn hoff o bethau eraill.

### 2 Sut ydych chi'n defnyddio'r awyr agored yn eich ardal leol?

- Mae 58% yn hoff o'i ddefnyddio i gerdded
- Mae 14% yn hoff o feicio a defnyddio llwybrau beic
- Mae 10% yn hoff o gerdded a beicio
- Mae 16% yn hoff o gymryd rhan mewn chwaraeon eraill, gan gynnwys dringo, golff, criced, rygbi a phêl-droed, ac mae 2% yn defnyddio'r afonydd lleol er mwyn pysgota

### 3 Beth yw eich syniadau am wella eich ardal leol?

- Mae 26% o'r gymuned eisiau gweld mwy o sylw i drosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Mae 20% eisiau gweld mwy o weithgareddau/pethau i'w gwneud ar gyfer plant a phobl ifanc
- Mae 17% eisiau hygyrchedd gwell i hamdden
- Mae 16% eisiau gweld mwy o hyfforddiant sgiliau a swyddi
- Mae 6% eisiau gwella'r amgylchedd leol i'r bywyd gwylt
- Mae 5% eisiau lleihau tagfeydd traffig ac mae 5% eisiau gweld defnydd i'r adeiladau gwag
- Mae 3% eisiau hyrwyddo Cymoedd De Cymru ymhellach ac roedd gan 2% awgrymiadau eraill, gan gynnwys tyfu bwyd fel cymuned

O'r ymatebwyr, roedd 22% ohonynt dan 18 oed, 30% rhwng 18-40 oed, 32% rhwng 40-65 oed a 16% dros 65 oed.

### Trosolwg o gwestiwn 1

Dyweddodd 46% o'r bobl a ymatebodd mai'r bryniau, y wlad a'r coedwigoedd roedden nhw'n ei hoffi fwyaf am eu hardal. Ymatebodd 26% o'r bobl er mwyn dweud cymaint roedden nhw'n hoff o'r parciau a'r mannau gwyrdd lleol (gan gynnwys meysydd chwaraeon) a'r golygfeydd. Gyda'i gilydd, mae hyn yn cynrychioli 72% o'r holl ymatebion oedd yn cyfeirio at fannau gwyrdd a'r wlad o'u cwmpas fel y rheswm pennaf dros garu ble maen nhw'n byw. Yr ymateb arwyddocaol arall oedd yr ymdeimlad o frogarwch sy'n bodoli yn y Rhondda.

*'Dwi'n falch iawn  
o'r llwybrau a'r  
wlad*

*'Mae gennym ni rai o'r  
golygfeydd gorau a dwi'n  
dwli ar weld y gwyrddni'n  
newid lliw trwy bob tymor'*

*'Dwi'n caru'r bobl  
a'r teimlad o garu  
ein bro'*

### Trosolwg o gwestiwn 2

Cerdded a beicio sy'n cael ei wneud fwyaf yn yr awyr agored yn y Rhondda o bell ffordd. Mae **58%** o'r bobl a ymatebodd yn defnyddio'r awyr agored ar gyfer cerdded (gan gynnwys mynd â'r ci am dro), mae 14% yn beicio ac yn defnyddio llwybrau beicio, ac mae 10% yn hoff o gerdded a beicio. Gyda'i gilydd, mae hyn y golygu bod **82%** o'r ymatebwyr naill ai'n hoff o gerdded neu feicio yn y Rhondda. Mae gweddill yr atebion yn cynnwys cymryd rhan mewn chwaraeon eraill fel dringo, golff, criced, rygbi a phêl-droed, a physgota.

*'Dwi'n dwli ar gerdded,  
mwynhau'r golygfeydd a  
chasglu mwya'*

*'Dwi'n 14 a dwi'n hoffi  
cerdded ar y  
mynyddoedd gyda  
Dad'*

*'Dwi'n cerdded ar y  
mynyddoedd ac yn mynd â fy  
wyrion ar deithiau cerdded  
natur yn aml'*



Yr ymateb mwyaf aml ynglŷn â beth all helpu ardal leol pobl y Rhondda oedd tacio troseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol (26%). Mae ymatebion eraill arwyddocaol yn cynnwys mwy o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc (20%), gwella hygyrchedd gweithgareddau hamdden (17%), a dod â swyddi/addysg a hyfforddiant i'r Rhondda (16%). Roedd yr atebion eraill yn ymwneud â gwella'r amgylchedd lleol (6%), lleihau tagfeydd traffig (5%), defnyddio adeiladau gwag (5%) a hyrwyddo'r cymoedd (3%), yn ogystal â sylwadau eraill gan gynnwys tyfu bwyd fel cymuned.

*'Hoffwn weld mwy o weithgareddau hamdden er mwyn gwneud y mwyaf o'r manau agored e.e. marchogaeth, clybiau cerdded a llwvbrau beicio'*

*'Rhoi lonydd beic gwell ar y ffyrdd, a chodi ymwybyddiaeth o fanteision beicio'*

*'Mae angen manau gwyrdd penodol ar gyfer antur, sy'n rhad ac am ddim i'w defnyddio'*

*'Mae angen mesurau llym ar ymddygiad gwrth-gymdeithasol'*

*'Perchnogaeth gymunedol a mynediad gwell i'n adnoddau naturiol'*

*'Mae angen afonydd glanach a mwy o ffyrdd i bobl allu cymryd rhan'*

*'Cael y gymuned i weithio gyda'i gilydd er mwyn tacluso'r ardal'*

*'Mae angen mwy o bethau i blant i'w wneud i'w cadw nhw'n brysur'*

### **Canlyniadau'r Snap Survey**

Mae'r wybodaeth uchod yn pwysleisio ymatebion pobl i'r 3 cwestiwn a holwyd ar ein taflenni A5 (mwy o wybodaeth am ein harweinlyfr ymgysylltu ar gael yn Adran 4). Yn ogystal â hyn, cwblhaodd 65 o bobl y *Snap Survey* yn y digwyddiad 'Have a voice in the Valleys' a drefnwyd gan CNC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yng Nghanolfan Chwaraeon Rhondda Fach ar 23 Gorffennaf 2015.

O gwestiynau'r Snap Survey, pwysleisiodd 63% o'r ymatebwyr eu hawydd i weld mwy o swyddi a chyfleoedd dysgu er mwyn gwella'r ardal. Yn dilyn hyn, roedd 30% o ymatebwyr yn awyddus i weld amgylchedd mwy dymunol, gyda 6.5% yn dymuno gweld gwasanaethau iechyd gwell. Wrth ofyn pwy oedd pobl yn meddwl oedd yn gyfrifol am ddod â gwelliannau i'r ardal, roedd 28% o'r ymatebion yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y llywodraeth, gyda 28% arall yn dweud mai'r Cyngor oedd y prif awdurdod ar gyfer gwelliannau. Fodd bynnag, cyfeiriodd nifer calonogol (28%) o bobl yn benodol at y cyfrifoldeb ar y cyd sydd gan sefydliadau, cymunedau ac unigolion wrth ddod â gwelliannau. Dim ond 1.7% o'r ymatebwyr roddodd y cyfrifoldeb ar eu hunain i ddod â newid i'r ardal.

Pan ofynnwyd y cwestiwn am beth maen nhw'n ei hoffi fwyaf am eu hardal, amlygodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y bobl a'r teimlad o frogarwch, a'r amgylchedd naturiol a'r awyr agored ddaeth nesaf. Roedd y mynychwyr yn gweld y Rhondda fel lle da ar gyfer gweithgareddau awyr agored fel cerdded, beicio a mynd â chŵn am dro, ac roedd yr amgylchfyd naturiol yn cael ei grybwyll yn aml fel rhywbeth roedd pobl yn ei hoffi am yr ardal.

Cofnodwyd teimladau cadarnhaol a negyddol ynglŷn â dyfodol yr ardal. Roedd yr ymatebion negyddol yn fwy penodol, ac yn codi pryderon pobl ynghylch y diffyg ariannu yn yr ardal, y diffyg diddordeb gwleidyddol sydd i'w weld yno, y diffyg swyddi/cyfleoedd, yn ogystal â phryderon ynglŷn â'r cynnydd mewn trosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Serch hynny, roedd nifer o'r mynychwyr yn gadarnhaol am yr hyn roedden nhw'n teimlo y gallan nhw roi yn ôl i'r ardal e.e. sgiliau, amser a gwirfoddoli.

## 6 Crynodeb o negeseuon allweddol

O'r holl ymatebion a gasglwyd yn haf 2015, daeth sawl neges glir i'r amlwg oedd yn dangos bod nifer o bobl yn y Rhondda:

- Yn hoff iawn o'r wlad o'u cwmpas, y parciau lleol a'r golygfeydd, ac yn falch o'r teimlad cryf o frogarwch
- Yn mwynhau defnyddio'r awyr agored ar gyfer cerdded, mynd â chŵn am dro, beicio ac ati, ond yn awyddus i weld darpariaeth well ar gyfer cerddwyr a beicwyr
- Ddim yn mentro i'r wlad o'u cwmpas, er gwaetha'u lleoliad gymharol agos at y mannau awyr agored
- Yn awyddus i weld mwy o swyddi/cyfleoedd yn yr ardal, ac i wneud rhywbeth am y bygythiad cyson o drosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Yn bryderus am y diffyg gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn yr ardal.

Darlunnir canlyniadau'r 3 cwestiwn yn y siartiau isod.


### Y camau nesaf

Bydd y wybodaeth a gasglwyd wrth y cyhoedd hyd yma'n cyfrannu at ein gwybodaeth gefnogol er mwyn ein helpu ni i baratoi a chyflwyno Datganiad Ardal cychwynnol ar gyfer y Rhondda. Ynghyd â barn ein partneriaid, bydd y dystiolaeth hon yn ein helpu ni i weld beth fydd y blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer sut fyddwn ni'n rheoli adnoddau naturiol y Rhondda.


Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn parhau i ofyn barn y cyhoedd. Trwy fabwysiadu'r un dull a ddefnyddiwyd yn haf 2015, byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn canolbwyntio ar fynychu digwyddiadau cymunedol sydd wedi eu trefnu yn yr ardal eisoes.




Cwestiwn 1: Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ardal?



## Cwestiwn 2: Sut ydych chi'n defnyddio'r awyr agored yn eich ardal leol?




Cwestiwn 3: Beth yw eich syniadau am wella eich ardal leol?





Diolch i bawb sydd wedi llenwi taflen hyd yma! Byddwn yn parhau i gasglu barn ein partneriaid a'r cyhoedd dros y misoedd nesaf.



Os hoffwch wybod mwy, e-bostiwch ni ar: [rhondda@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:rhondda@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

[www.cyfoethnaturiol.cymru/](http://www.cyfoethnaturiol.cymru/)  
[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)

[twitter @NatResWales](https://twitter.com/NatResWales)

[ff Canolfan Ofal Cwsmeriaid 0300 065 3000 \(Llun-Gwe, 8yb-6yh\)](tel:03000653000)